Cynllun Pensiwn Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2004 hyd at 31 Mawrth 2005

# Cynnwys

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH i BEN 31 MAWRTH 2005 i AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**YR ADRODDIAD BUDDSODDI**

**DATGANIAD YR ACTIWARI**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

**DATGANIAD O GYFRANIADAU**

**DATGANIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL YNG NGHYMRU YNGLYN Â CHYFRANIADAU**

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

**TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**CYFRIFON CYNLLUN PENSIWN**

**DATGANIAD CYDYMFFURFIO**

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH i BEN 31 MAWRTH 2005 i AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Cefndir Deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlwyd Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan o dan adran 18 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Ar 22 Ionawr 2003, mabwysiadwyd Rheolau diwygiedig y Cynllun drwy benderfyniad y Cynulliad.

Ar 9 Mawrth 2005, diwygiodd y Cynulliad y Rheolau drwy benderfyniad i ddarparu i Aelodau ddewis o raddfeydd croniadau. Yr oedd Aelodau yn gallu ethol i gael croniad deugeinfed o 1 Ebrill 2004 neu o 1 Ebrill 2005 trwy gynyddu eu cyfraniadau o 10%. Fel arall gallai Aelodau ddewis eithrio o'r croniad deugeinfed o 1 Ebrill 2005 trwy hysbysu'r Ymddiriedolwyr erbyn 30 Mehefin 2005 eu bod yn dymuno aros ar y graddfeydd croniadau a'r cyfraniadau sy'n bodoli eisoes.

Ar yr un diwrnod, ychwanegwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio at y rhestr Deiliaid Swyddi cymwys.

Deiliaid Swyddi yw:y Llywydd; y Dirprwy Lywydd; Prif Weinidog Cymru; Gweinidogion y Cynulliad; arweinwyr y blaid fwyaf nad yw'n cael ei chynrychioli yn y Cabinet; a Chadeiryddion Pwyllgorau Pwnc: a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

## Nod yr Adroddiad

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Neddf Cynlluniau Pensiwn (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig o fewn 7 mis i ddiwedd y flwyddyn gyfrifo, ond bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon trwy ddatgelu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion actiwaraidd a chyfrifo, i bob aelod o'r Cynllun o fewn 3 mis i dderbyn cyfrifon archwiliedig yn unol ag Atodlen 1 paragraff 13 o Reolau'r Cynllun.

## Yr Ymddiriedolwyr

Yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ac ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad terfynol, sydd oll yn Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd oedd:

John Marek Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Eleanor Burnham
Alun Cairns
Peter Law
Owen John Thomas

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun o fewn Swyddfa Ffioedd y Cynulliad sy'n gweithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu unrhyw wybodaeth bellach ofynnol at yr Ysgrifenyddiaeth i'r cyfeiriadau canlynol:

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa Ffioedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898956/898161
Ffacs: 02920 898059
e-bost: roger.beale@wales.gsi.gov.uk
wayne.cowley@wales.gsi.gov.uk

## Incwm y Gronfa

Mae incwm y Gronfa yn deillio o'r ffynonellau canlynol; cyfraniadau gan Aelodau gweithredol y Cynulliad a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel cyflogwr.

Mae Aelodau a Deiliaid Swyddi yn cyfrannu 10% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail deugeinfed a 6% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail hanner canfed. Mae'r Cynulliad, fel y cyflogwr, yn cyfrannu 24% o gyflogau pensiynadwy at y cynllun sylfaenol a'r cynllun Deiliaid Swyddi ar gyfer Aelodau sy'n cronni buddion ar sail deugeinfed a 23% os yw buddion yn cael eu cronni ar sail hanner canfed. Mae'r cyfraddau hyn wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2004 yn dilyn y newid i Reolau'r cynllun ym mis Mawrth 2005. Bydd Actiwari'r Cynllun yn paratoi ei ail brisiad tair blynedd fel ar 1 Ebrill 2005 a allai arwain at newidiadau yng nghyfraddau cyfraniadau'r Cynulliad.

## Prisiad Actiwaraidd

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun lunio adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd cyntaf ar 1 Ebrill 2002 a gosodwyd yr adroddiad ar 8 Mai 2003, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad cychwynnol gan yr Actiwari dyddiedig 25 Mawrth 2003 yn argymell cyfradd cyfrannu o 23% o gyflog pensiynadwy yr Aelodau. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i gwrdd â chostau'r Cynllun er mwyn sicrhau y telir am y buddiannau a'r cyfraniadau a delir i'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Yn dilyn y newid i'r gyfradd cronni gwnaethpwyd cyfraniad cyflogwr 1% ychwanegol ar gyfer yr Aelodau hynny oedd yn dewis croniadau deugeinfed. Mae'r dystysgrif ddilynol ddyddiedig 21 Gorffennaf 2005 (tudalennau 11 a 12) yn cadarnhau bod cyfraniad y Cynulliad yn ddigonol am y flwyddyn nesaf. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol ar gyfer cwrdd â'r buddiannau presennol. Mae'r datganiadau hyn yn

seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Nodyn Cyfarwyddyd GN9 y Sefydliad Actiwarïaid a'r Gyfadran Actiwarïaid.

**Aelodaeth**

Aelodau Gweithredol

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol ar 1 Ebrill 2004 | 60 (*Y Deiliaid Swyddi yn eu plith 20*) |
| *Ychwaneger:* Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| *llai:* Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn | (0) |
| Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn | (0) |
| **Aelodau Gweithredol ar 31 Mawrth 2005** | **60** |

Aelodau sy'n oedi cyn cymryd eu pensiwn

| | |
|---|---|
| Aelodau a oedd yn oedi cyn cymryd eu pensiwn ar 1 Ebrill 2004 | 10 |
| *Ychwaneger:* Aelodau sy'n gadael â'r hawl i oedi cyn cymryd eu pensiwn | 0 |
| *Llai:* Aelodau sy'n cymryd yr hawl i oedi cyn cymryd eu pensiwn | (2) |
| **Aelodau sy'n Oedi cyn Cymryd eu Pensiwn ar 31 Mawrth 2005** | **8** |

Pensiynwyr sy'n derbyn Tâl

| | |
|---|---|
| Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 1 Ebrill 2004 | 7 |
| y*chwaneger:* Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn | 0 |
| *ychwaneger:* Aelodau sy'n cymeryd yr Hawl i Oedi cyn cymryd eu pensiwn | 2 |
| *ychwaneger:* Aelodau sydd â dibynyddion newydd | 0 |
| l*lai:* Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn | 0 |
| **Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 31 Mawrth 2005** | **9** |

Mae manylion y taliadau a wnaed o'r cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 y cyfrifon. O 12 Ebrill 2004 cynyddwyd y taliadau o 2.8% yn unol â Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2004.

**Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol**

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir (SORP), Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn (diwygiwyd Tachwedd 2002), cyn belled â bod hynny'n briodol.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi gan swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio'n unol ag OS 1996/1975 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Rhagwelir y bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad o fewn 3 mis i lofnodi a chyhoeddi Datganiad yr Archwilydd.

Mae copïau o’r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

**Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol**

Roedd yr incwm yn ystod y cyfnod yn £1,178,157 (2003-2004 £1,128,819), a gwariant y Cynllun yn £70,161 (2003-2004 £84,659). Roedd asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2005 yn £5,965,534 (2003-2004 £4,313,053).

Yn ystod y cyfnod talwyd cyfanswm o £889,551 (2003-2004 £959,471) i Reolwyr y Gronfa i’w fuddsoddi yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford. Cyfanswm gwerth marchnad y Gronfa ar 31 Mawrth 2005 oedd £5,674,012 (2003-2004 £4,240,897).

Rhoddwyd £140,011 pellach ar gadw gyda banc y Cynllun i ennill llog ar sail y graddfeydd marchnad arian cryfaf.

**Buddsoddiadau**

Mae’r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau’r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r cynllun yn ddigon i ganiatau portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau dyfu'n ddigon mawr, cred yr ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi gydag amrywiaeth addas ac am gost resymol yw i ddefnyddio cwmnïau buddsoddi neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau tebyg. Disgwylir hefyd i'r adenillion buddsoddiad fod yn uwch na chwyddiant pris o ddigon o faint fel bod modd sicrhau y darperir ar gyfer buddiannau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraidd y cynllun.

**Polisi Buddsoddi**

Yr Ymddiriedolwyr sy’n pennu Polisi Buddsoddi Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd yn cael ei adolygu o bryd i’w gilydd. Nodir y polisi sydd mewn grym ar 31 Mawrth 2005 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi’i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr ac mae ar gael i Aelodau ar gais gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun. Nid oes hunan fuddsoddiad.

**Rheolwr Buddsoddi**

Mae’r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Cyf fel Rheolwyr Cyllid i fod yn gyfrifol am Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae’r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo’r cyfrifoldeb o reoli’r buddsoddiadau iddynt.

Mae buddsoddiadau’n cael eu gwneud trwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Cyfyngedig. Prif nodwedd y polisi yw bod y buddiannau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau y Gronfa.

Telir ffi rheoli o 0.45% o gyfanswm gwerth y gronfa yn y farchnad bob blwyddyn i Baillie Gifford Life Cyfyngedig, sy'n cael ei ddidynnu o werth y Gronfa bob mis.

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Giford Life Limited yn eiddo i gwmni yswiriant, sef Baillie Gifford Life, a chânt eu cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Mae adroddiad ar fuddsoddi sy'n ymwneud â'r polisïau ar fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ac arolwg o berfformiad buddsoddi y Gronfa yn ystod y flwyddyn, a natur, trefn, y sefyllfa o ran eu gwerthu ar y farchnad stoc a diogelwch yr asedau ar dudalennau 8 i 10. Cyfanswm gwerth y Gronfa yn y farchnad ar 31 Mawrth 2005 oedd £5,674,012, sef cynnydd o £543,564 yn ystod y flwyddyn, fel y nodir yn Nodyn 7 o'r cyfrifon.

Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae perfformiad y gronfa wedi bod yn unol â'r gwelliant cyffredinol ym marchnadoedd stoc y byd.

**John Marek Aelod o'r Cynulliad (Dirprwy Lywydd)**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Alun Cairns Aelod o'r Cynulliad**
**Ymddiriedolwr**

(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Dyddiad**: 12 Hydref 2005

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad Buddsoddi ar gyfer y Flwyddyn a Orffennodd ar 31ain Mawrth 2005**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisïau ar fuddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael os gwneir cais amdano.

Mae'r cyfrifoldeb dyddiol o reoli buddsoddiadau wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford & Co, sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau a chyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd a chyda cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r unedau a ddelir gan y gronfa bensiwn yn rhan o gytundeb rhwng yr Ymddiriedolwyr a Baillie Gifford Life Cyf, sydd ar ffurf Polisi Yswiriant. Y polisi ei hun yw'r 'ased' sy'n eiddo i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r unedau o fewn y cronfeydd yn darparu dull hawdd o werthuso buddiannau'r polisi.

BGL, y cwmni yswiriant, sy'n berchen ar yr holl asedau o fewn y cronfeydd a weithredir gan BGL, ac maent wedi'u cofrestru yn ei enw. Mae BGL wedi contractio'r rhiant-gwmni sy'n fenter o fewn BG&Co, i gyflawni'r swyddogaeth o Reoli Buddsoddiad yr asedau o fewn y Cwmni Yswiriant a rheolir y swyddogaeth hon gan Gytundeb Rheolaeth Fuddsoddi rhwng y ddau gwmni.

**Targed Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gosod nod perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y Cynllun a'r lefel risg y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn briodol. Targed presennol Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford yw perfformio'n well na chanolrif Cronfa Gronedig Gytbwys y Gwasanaethau Perfformiad Actiwaraidd Cyfunol (CAPS) dros gyfnodau treiglol o dair blynedd.

**Yr Awdurdod Buddsoddi**

Buddsoddir yr asedau mewn unedau cronfa cronedig, sy'n cynrychioli cronni asedau, gan amrywiaeth o gronfeydd pensiwn. Gan nad yw buddsoddwyr yn gallu gosod cyfyngiadau, maent yn rhoi rhyddid llawn i'r rheolwr.

Mae'r rheolwr wedyn yn gweithio i sefydlu portffolio llawn amrywiaeth o fewn marchnadoedd stoc ac yn ddaearyddol. Y meincnod ar gyfer dyrannu asedau yw cyfartaledd dosraniad ased cronfa gronedig CAPS. Mae athroniaeth ac amcanion buddsoddi Cronfa Bensiwn Reoledig BGL yn gyson â'r awdurdod a lofnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr.

**Dosraniad yr Asedau**

Roedd gwerth a dosraniad yr asedau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford ar 31

Mawrth 2005 fel a ganlyn:

| | 2004 % | 2005 % |
|---|---|---|
| **Ecwitïau'r DU** | 55.1 | 52.0 |
| **Ecwitïau Tramor** | | |
| Gogledd America | 7.9 | 6.9 |
| Ewrop | 13.3 | 12.3 |
| Japan | 5.6 | 6.4 |
| Y Pasiffig (heblaw am Japan) | 5.5 | 5.2 |
| Marchnadoedd Newydd | 3.1 | 3.2 |
| | 35.4 | 34.0 |
| **Llog Sefydlog** | | |
| Bondiau'r DU | 4.8 | 4.0 |
| Bondiau Tramor | 2.5 | 2.4 |
| | 7.3 | 7.4 |
| **Arian Parod ac Adneuon** | 2.2 | 7.6 |
| **CYFANSWM** | **100.0** | **100.0** |

**Y Cefndir Economaidd a'r Farchnad Stoc**

Yn nhermau'r bunt, yr oedd y marchnadoedd ecwiti yn parhau i berfformio'n dda dros y cyfnod, gyda marchnadoedd Ewropeaidd a'r DU yn cynyddu o 17% a 15% yn eu trefn, a gwledydd datblygedig Asia a'r Marchnadoedd Newydd yn dangos elw o 19% a 14% yn eu trefn. Mewn cymhariaeth, effeithiodd y ddoler wan ar fuddion yn yr UDA, i fyny dim ond 4%, ac arweiniodd pylu yn y twf economaidd i'r marchnadoedd Siapaneaidd wneud colled o 3%.

Er fod y marchnadoedd wedi perfformio'n dda, cafodd brwdfrydedd buddsoddwyr ei atal ar ddechrau'r cyfnod gan nifer o bryderon, gan gynnwys prisiau olew uchel, arafu yn y Twf Sineaidd a graddfeydd llog oedd yn cynyddu, yr oedd pryder a fyddai yn ei dro yn arwain at arafu'r twf economaidd byd-eang. I raddau mae'r ofnau hyn wedi'u cadarnhau gan y cymhedroldeb diweddar mewn gweithgaredd economaidd yn y rhanbarthau diwydiannol mwyaf gan gynnwys yr UDA, Ewrop a Japan, a hefyd gan bolisi'r llywodraeth yn China, sydd wedi'i osod yn benodol i arafu twf. Fodd bynnag, nid yw'r 'sefyllfa waethaf posibl' wedi'i gwireddu ac fe helpodd hyn y marchnadoedd yn rhan olaf y cyfnod, yn arbennig yn y Marchnadoedd Newydd. Mae'n debyg fod gan raddau llog fwy le i gynyddu yn y UDA ond byddai'n ymddangos y byddant yn pegynnu ar lefelau isel yn y DU a'r UDA gan fod pwysau chwyddiant yn isel. Mae twf elw corfforaethol hefyd wedi parhau i fod yn gryf.

Yn gyffredinol fe berfformiodd stociau olew yn well yn ystod y cyfnod, gan gael eu cadw'n uchel gan bris uchel olew. Yr oedd tybaco yn sector cryf arall, tra cafodd stociau fferyllol eu taro gan newyddion drwg ar gyfres o gyffuriau sy'n bodoli. Fel y cododd cyfraddau llog, dioddefodd llawer o stociau ariannol, p'un agored bynnag yr oeddent i godiadau yn y gyfradd. Mae'r cynnydd yng nghostau deunydd crai a thrafferthion i godi prisiau wedi golygu fod nifer o rybuddion elw dros y cyfnod, yn arbennig yn y sector nwyddau defnyddwyr. Mae'n galonogol, fodd bynnag, mai ychydig iawn o'r daliadau o fewn y gronfa sydd wedi dioddef yn y modd hwn.

Yr ydym yn optimistig am y rhagolygon ar gyfer twf economaidd a'r marchnadoedd ecwiti, , er fod graddau llog sy'n codi'n raddol iawn a phris uchel olew yn rhoi cefndir llai ffafriol na sydd wedi bod yn wir dros y mwyafrif o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Disgwyliwn i broffidiau corfforaethol i dyfu, er mai ar raddfa arafach nac yn 2004, ac yr ydym hefyd yn gweld twf o'r newydd cyfranddaliadau, sy'n galonogol. Mae'n debygol y bydd China yn ddylanwad blaengar ar dwf economaidd byd-eang am sawl blwyddyn i ddod, a chredwn hefyd fod argoel am dwf tymor hir a chyfleoedd stoc yn y Marchnadoedd Asiaidd a'r Marchnadoedd Newydd yn parhau i fod yn ddeniadol.

Yr ydym yn gadarnhaol am y golygon ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa, sy'n bennaf yn perfformio'n dda ar y lefel weithredol ac yn cynhyrchu graddau twf cryf yn eu hadenillion a'u buddrannau. Yn gyffredinol, mae stociau twf o ansawdd da yn werth eu pris ar hyn o bryd, a disgwyliwn y ffaith eu bod yn ddeniadol i gael ei adlewyrchu mewn prisiau uwch cyfranddaliadau dros amser.

**Polisi**

Yr oedd newidiadau o ran asedau yn fach. Cadwasom sefyllfa o floneg o ran ecwitïau sy'n perthyn i fondiau trwy gydol y cyfnod. O fewn llog ar radd sefydlog, fe wnaethom symud i sefyllfa fain o ran bondiau corfforaethol, wedi i berfformiad cadarn arwain at dynhau'r taenu yn sylweddol.  O fewn ecwitïau, fe wnaethom gynyddu ein perthynas â Japan yn gynnar yn y flwyddyn gan fod golygon y cwmni yn gwella ar sail adferiad economaidd. Fodd bynnag, gostyngwyd y pwysoli tuag at ddiwedd y flwyddyn fel yr oedd y twf yn syrthio i lefelau mwy sefydlog. Hefyd gostyngwyd y berthynas gydag ecwitïau'r DU yn ystod y cyfnod, gan alluogi'r sefyllfa ariannol i gynyddu. Yn ystod y chwarter olaf, yr oedd cynnydd bach ym mhwysoliad ecwitïau'r UDA er mwyn ariannu'r nifer o gyfleoedd am dwf oedd wedi'u prisio'n ddeniadol.

**Perfformiad**

Creodd y Gronfa Bensiwn Reoledig gyfanswm elw o 11.0% yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2005 o'i gymharu ag elw canolrifol o 11.1% ar gyfer cronfeydd a gynhwysir yn arolwg Cronfa Gronedig CAPS.

Mae'r 1.9%, sef yr elw buddsoddiad blynyddol dros y tair blynedd diwethaf hyd at 31 Mawrth 2005, yn cymharu ag elw canolrifol o 2.3% y flwyddyn ar gyfer arolwg Cronfa Gronedig CAPS. -0.9% a -1.2% yw'r elw ar gyfer y pum mlynedd, yn y drefn honno.

**Marchnadwyedd**

Mae buddsoddiadau yn cynnwys unedau o fewn cyfrwng buddsoddi ar y cyd a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod eu daliadau yn hawdd eu marchnata.

**Y Daliadau Mwyaf**

Ar 31 Mawrth 2005, roedd y deg daliad mwyaf yn cynrychioli 26.8%  o gyfanswm gwerth y portffolio.  Roedd un daliad, sef Grwp Vodafone, yn cynrychioli 3.7% (£209,938) o asedau net y cynllun.

**<u>CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU</u>**

**<u>DATGANIAD YR ACTIWARI –</u>**

(1) **Asesiad Actiwaraidd**. Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2002, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Tra nodir yn y Rheolau, swm cyfraniadau aelodau, mae gradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei gyfrif fel canran cyflog sy'n ofynnol i gwrdd â'r gost er mwyn sicrhau y telir am fuddiannau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) **Dull**. Rhoddwyd gwerth ar y rhwymedigaethau y disgwylir iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y tair blynedd ar ôl y dyddiad prisio ar y dyddiad hwnnw gan ddefnyddio'r dechneg actiwaraidd safonol a elwir yn *Ddull Rhagamcanu Unedau.* Mynegir *Cyfradd Cyfraniad Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddiannau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gyfradd hon yn dibynnu ar ddosbarthiad aelodau'r Cynllun yn ôl oedran a rhyw. Er mwyn pennu cyfradd cyfraniad y Cyflogwr, mae gwerth y rhwymedigaethau a gronnir hyd at y dyddiad prisio yn cael ei gymharu â gwerth yr asedau sydd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwn. Adlewyrchir unrhyw warged (neu ddiffyg) yng nghwerth yr asedau sy'n fwy (neu'n llai) na'r rhwymedigaethau a gronnwyd wrth addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol.

(3) **Tybiaethau**. Er mwyn cyfrifo'r gost, mae'n rhaid gwneud tybiaethau actiwaraidd penodol. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol cyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried gwyriadau rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

**Y prif dybiaethau a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau**

| | |
|---|---|
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog | 2% y flwyddyn |
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris | 3½% y flwyddyn |
| Marwolaeth – Tablau safonol marwolaethau a gyhoeddir gan y proffesiwn actiwaraidd (tablau "PMA 80") | |

Nodir manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad actiwaraidd dyddiedig a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2002, dyddiedig 25 Mawrth 2003 yn yr adroddiad.

(4) **Newidiadau ers Prisiad 2002** Yn weithredol ers 1 Ebrill 2004, gallai aelodau ddewis talu cyfraniad uwch o 10% o'u cyflog pensiynadwy yn lle'r 6% oedd i'w gyfrannu'n flaenorol. Ar gyfer aelodau a ddewisodd wneud hynny, yr oedd buddion yn cronni ar radd o un mewn deugain o'r cyflog pensiynadwy terfynol bob blwyddyn o wasanaeth o 1 Ebrill 2004, o'i gymharu gyda'r un mewn hanner cant oedd yn wir yn flaenorol.

(5) **Cyfradd Cyflogwr**. Yr argymhelliad cyfradd cyfraniad y cyflogwr a bennwyd trwy ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau a ddisgrifir oedd 23% o gyflog pensiynadwy yn weithredol o 1 Ebrill 2002, a deallwn fod 1% o gyflog pensiynadwy ychwanegol wedi'i

dalu o 1 Ebrill 2004 gyda golwg ar unrhyw aelod sy’n dewis y radd cronni budd gynyddol o un mewn deugain i fod yn berthnasol iddynt o’r dyddiad hwnnw. Mae’r gyfradd yn cynnwys darpariaeth lawn am fuddion marwolaeth, gan gynnwys gwelliannau yn y buddion hyn ers cychwyn y cynllun, a hefyd lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu.

(6) **Diogelwch yr Hawliau Arfaethedig** Yn fy marn i, mae adnoddau’r cynllun yn debygol, mewn sefyllfa o ddigwyddiadau normal, o gwrdd â chyfrifoldebau cyflawn y cynllun fel y maent. Wrth roi’r farn hon yr wyf wedi cymeryd y bydd cyfraniadau’r cyflogwr yn cael eu talu i’r Cynllun fel y disgrifir ym Mharagraff (5) uchod (yn amodol ar adolygiad yn y prisiad 2005) yn ychwanegol at gyfraniadau Aelodau ar y graddfeydd a ddisgrifir ym mharagraff (4) uchod.

(7) **Yr Asesiad Actiwaraidd Nesaf** Mae prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf y Cynllun yn cael ei wneud gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2005. Prif bwrpas y prisiad hwnnw yw asesu digonolrwydd graddfa cyfraniadau’r cyfogwr a argymhellwyd, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

**D G Ballantine**
**Cymrawd y Gyfadran Actiwari**
**21 Gorffennaf 2005**

**Adran Actiwari’r Llywodraeth**
**Ty Finlaison**
**15-17 Stryd Furnival**
**Llundain EC4A 1AB**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r datganiadau ariannol yn gyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio gyda rheoliadau cynllun pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny ble bynnag bo'n bosibl oherwydd fod hynny'n arfer da. Mae'r rheoliadau yn gofyn fod yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau fod datganiadau ariannol archwiliedig ar gael i aelodau'r cynllun, rhai sy'n cael budd ohono a rhai partïon eraill ar gyfer pob blwyddyn Cynllun sy'n:

- Dangos golwg cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o swm a sefyllfa'r asedau a'r cyfrifoldebau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahan i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, ac

- Yn cynnwys yr wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio paratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno polisïau cyfrifo addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a barnedigaethau ar sail rhesymol a doeth.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau ymlyniaeth gyda rheolau'r cynllun ac argymhellion yr Actiwari gyda golwg ar gyfraniadau sy'n daladwy tuag at neu gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun a'r dyddiadau y mae cyfraniadau o'r fath i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnodion o gyfraniadau a dderbyniwyd gyda golwg ar unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau fod cyfraniadau yn cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol â'r argymhellion, o Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau fod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Crynodeb y Cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn**

Yn ystod y flwyddyn, 'roedd y cyfraniadau a dalwyd i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol âg argymhellion yr actiwari fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Cyfraniadau arferol y Cyflogwr | 711,128 |
| Cyfraniadau arferol y Gweithiwr Cyflogedig | 187,097 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y Gweithiwr I brynu Blynyddoedd Ychwanegol | 7,291 |
| Cyfanswm Cyfraniadau | 905,516 |

**John Marek**
**Aelod o'r Cynulliad (Dirprwy Lywydd)**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Alun Cairns**
**Aelod o'r Cynulliad**
**Ymddiriedolwr**

**Dyddiad:** 12 Hydref 2005

Cymodi rhwng cyfraniadau a dalwyd a welir uchod a chyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau a dalwyd: | 905,516 |
| Llai Dyledwr agoriadol: | (74,317) |
| Yn ychwanegol Dyledwr cloi: | 155,137 |
| Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol: | 986,336 |

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol am Gyfraniadau, dan Reoliad 4 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, i Ymddiriedolwyr ac Aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Yr wyf wedi archwilio'r crynodeb o gyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am flwyddyn y cynllun yn gorffen 31 Mawrth 2005, a nodir ar dudalen 14.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**

Fel y disgrifir ar dudalen 13 y cynllun mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfio gyda rheolau'r cynllun ac argymhellion yr Actiwari sy'n nodi'r cyfraddau ar rai cyfraniadau sy'n daladwy tuag at y cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau fod cyfraniadau yn cael eu gwneud i'r cynllun yn unol ag argymhellion yr Actiwari fel y nodir yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 11 a 12.

Fy nghyfrifoldeb i ydyw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd yn unol ag argymhellion yr Actiwari ac i adrodd am fy marn wrthych chi.

**Sail y datganiad am gyfraniadau**

Fe wnes gynllunio a pherfformio fy ngwaith er mwyn cael yr wybodaeth a'r esboniadau a ystyriwn yn angenrheidiol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau wedi'u talu yn unol â'r gofynion perthnasol. I'r perwyl hwn yr oedd y gwaith a wneuthum yn cynnwys, archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth perthnasol i'r symiau o gyfraniadau a dalwyd i'r cynllun yn unol â Datganiad yr Actiwari. Mae gofyn i'm datganiad am gyfraniadau gyfeirio at yr achosion hynny o beidio cydymffurfio gydag argymhellion yr Actiwari sy'n dod i'm sylw yn ystod fy ngwaith.

**Datganiad am gyfraniadau**

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005, fel yr adroddwyd yn y crynodeb o gyfraniadau wedi'u talu yn unol ag argymhellion yr Actiwari fel y nodir yn Natganiad yr Actiwari a dystiwyd gan Actiwari'r Cynllun ar yr 21ain o Orffennaf 2005.

Jeremy Coleman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Hydref 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2 – 4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb ei wefan ei hun. Nid yw'r gwaith y mae'r archwilwyr yn ei gynnal yn ystyried y materion hyn, ac oherwydd hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

### Cwmpas y Cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr i sicrhau bod system reolaeth fewnol effeithiol yn cael ei chynnal a'i gweithredu sy'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun a hefyd yn diogelu asedau y cynllun.

### Diben y System o Reoli Mewnol

Gall y system ddarparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, bod asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra difrifol yn cael eu hatal neu'n cael eu datgelu yn gyflym.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses sy'n cael ei chynnal yn rheolaidd i geisio nodi'r prif risgiau sy'n bygwth nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i bwyso a mesur natur a graddau'r risgiau hynny ac i'w rheoli, Mae wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gan gynnwys cyngor annibynnol gan gynghorwyr proffesiynol y Gronfa, gweithdrefnau gweinyddol priodol a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Roedd yr holl weithdrefnau priodol yn eu lle erbyn 31 Mawrth 2005.

### Gallu i Ymdrin â Risg

Mae'r cyfrifoldeb o weinyddu a chadw cyfrifon o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Ysgrifenyddiaeth ac Adran Gyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r Ymddiriedolwyr yn dibynnu ar weithdrefnau rheolaeth fewnol y Cynulliad, sy'n rhan o'r system reolaeth fewnol a weithredir gan y Cynulliad.

### Fframwaith Risg a Rheoli

Mae angen adroddiadau rheolaidd arnom gan yr ysgrifenyddiaeth ar y camau y maent yn eu cymryd er mwyn rheoli risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd.

Yn ystod 2004-05, rydym wedi:

- cadw cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- trefnu bod yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth fewnol; ac
- wedi adolygu'r adroddiad annibynnol ar Reolaeth Fewnol Baillie Gifford yn ystod y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2004 er mwyn rhoi sicrwydd bod rheolaeth fewnol rheolwr y gronfa yn bodloni'r safon gofynnol.

- Derbyn adroddiadau chwarterol gan Baillie Gifford sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adroddiad rheolwr cyllid; manylion perfformiad y buddsoddiad; rhestr o ddaliadau cyfredol; a gwybodaeth cyfrifo a llywodraethu corfforaethol.

**Adolygu Effeithiolrwydd**

Mae'r archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol a'r ysgrifenyddiaeth yn ein helpu i adolygu, datblygu a chynnal system y fframwaith rheolaeth fewnol a'i heffeithiolrwydd. Mae'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill yn cael eu hystyried.

**John Marek**
**Aelod o'r Cynulliad (Dirprwy Lywydd)**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Alun Cairns**
**Aelod o'r Cynulliad**
**Ymddiriedolwr**

**Dyddiad:** 12 Hydref 2005

**Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr ac Aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys Cronfa Gyfrif, y Datganiad Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig, sydd wedi'u paratoi ar sail y polisïau cyfrifo a nodir yn y nodiadau.

**Cyfrifoldebau arbennig yr Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**

Mae cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar gyfer cael adroddiad blynyddol, gan gynnwys datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig a'r Safonau Cyfrifo, wedi'u nodi yn y datganiad ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion rheolaethol a Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Adroddaf wrthych fy marn a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg ac a ydynt yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Byddaf hefyd yn dweud wrthych os, yn fy marn i, nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ac wedi ystyried y goblygiadau o ran fy adroddiad os dof ar draws unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau difrifol o fewn y datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, yr Adroddiad Buddsoddi, Datganiad yr Actiwari, y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, a'r Datganiad Cydymffurfio.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 16 i 17 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolwyr gyda chyfarwyddyd y Trysorlys ar 'Lywodraethu corfforaethol: datganiad ar reolaeth fewnol'. Rwy'n nodi'r ffaith os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni yn sgil fy archwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol fy mod yn ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad yr Ymddiriedolaethwyr ar Reolau Mewnol yn mynd i'r afael â phob risg a rheol. Nid yw'n ofynnol chwaith fy mod yn ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Cynllun na'i weithdrfnau risg a rheoli.

**Yr hyn sy'n sail i farn yr archwiliad a'r datganiad ynghylch cyfraniadau**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ymchwiliad, fel prawf, i dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan, neu ar ran, yr ymddiriedolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cynllun, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy nhyb i er mwyn imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau difrifol, wedi'u hachosi gan dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd

wedi pwyso a mesur pa mor ddigonol y cafodd y wybodaeth ei chyflwyno yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i mae’r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg ar drafodion ariannol y Cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 ac ar swm a sefyllfa ei asedau a’i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun, ac maent yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliad 3 a’r Atodlen i’r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Hydref 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2 – 4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb ei wefan ei hun. Nid yw'r gwaith y mae'r archwilwyr yn ei gynnal yn ystyried y materion hyn, ac oherwydd hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005

## Cyfrif y Gronfa

| | Nodi-adau | 2004-05 £ | 2003-04 £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm y Cynllun** | | | |
| Cyfraniadau i'w derbyn | 4 | 986,336 | 889,919 |
| Trosglwyddiadau Unigol i Mewn | | 190,640 | 238,716 |
| Llog Banc a Dderbyniwyd | | 1,181 | 184 |
| | | 1,178,157 | 1,128,819 |
| **Gwariant y Cynllun** | | | |
| Budd-daliadau sy'n Daladwy | 5 | 45,399 | 56,555 |
| Ffioedd Proffesiynol | 6 | 22,903 | 26,432 |
| Costau Gweinyddu | | 1,859 | 1,672 |
| | | 70,161 | 84,659 |
| **Ychwanegiadau Net o drafodion ag Aelodau** | | 1,107,996 | 1,044,160 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Newid i werth marchnad buddsoddiadau | 7 | 543,564 | 683,354 |
| Llog Arian Cadw | 8 | 921 | |
| **Cynnydd Net yn y gronfa yn ystod y flwyddyn** | | 1,652,481 | 1,727,514 |
| **Asedau Net y cynllun ar 1 Ebrill** | | 4,313,053 | 2,585,539 |
| **Asedau Net y cynllun ar 31 Mawrth** | | **5,965,534** | **4,313,053** |

## Datganiad Asedau Net

| | | Ar 31 Mawrth 2005 £ | Ar 31 Mawrth 2004 £ |
|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Cronfa Reoledig | 7 | 4,240,897 | 4,240,897 |
| Arian Cadw | 8 | 140,904 | - |
| **Asedau a Rhwymedigaethau Presennol** | 9 | 150,618 | 72,156 |
| **Asedau Net y cynllun ar 31 Mawrth** | | **5,965,534** | **4,313,053** |

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 12 Hydref 2005 gan:

John Marek AC
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Alun Cairns AC
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

1. **Y Sylfaen ar gyfer Paratoi.**

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd 2002.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld datganiad actiwaraidd ar dudalen 11 a 12).

2. **Polisïau Cyfrifo**

Prif bolisïau actiwaraidd y cynllun yw:

- Cyfraniadau arferol, cyfraniadau i brynu blynyddoedd ychwanegol a chyfrifir am gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn y flwyddyn y maent yn ddyledus.
- Cyfrifir buddiannau ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- Mae trosglwyddo gwerthoedd o un cynllun pensiwn i un arall yn cynrychioli'r symiau a gafodd eu derbyn a'u talu yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd wedi ymuno â'r Gronfa neu ei gadael.
- Cyfrifir yr holl wariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.
- Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gwerth marchnad yr unedau cronfa reoledig yw cyfartaledd pris unedau.

3. **Ysgrifenyddiaeth**

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Amcangyfrifir mai £39,500 (2003-04 £37,000) yw'r gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

4. **Cyfraniadau i'w Derbyn**

Mae cyfraniadau'n cynnwys:

| | 2004-05 | 2003-04 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogwr: cyfraniadau arferol | 736,677 | 695,048 |
| Aelodau: cyfraniadau arferol | 242,709 | 183,274 |
| : prynu Blynyddoedd Ychwanegol | 6,950 | 11,597 |
| | 986,336 | 889,919 |

Mae Aelodau'n cyfrannu 10% am groniad un mewn deugain a 6% am groniad un mewn hanner cant gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu 24% a 23% yn eu trefn o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun.

5. **Budd-daliadau sy'n Daladwy**

| | 2004-05 £ | 2003-04 £ |
|---|---|---|
| Pensiwn | 38,968 | 33,463 |
| Budd-daliadau Ymddeol – Cyfrandaliadau | 6,431 | 22,631 |
| | 45,399 | 56,555 |

6. **Ffioedd Proffesiynol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Ffïoedd Actiwaraidd | 10,785 | 8,292 |
| Ffi Archwiliad | 7,638 | 7,638 |
| Ffioedd Cyfreithiol | 4,480 | 10,502 |
| | 22,903 | 26,432 |

7. **Buddsoddiadau**

Delir yr holl fuddsoddiadau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Ballie Gifford.

| | Unedau | 2004-05 £ | 2003-04 £ |
|---|---|---|---|
| Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill | 1,483,350 | 4,240,897 | 2,598,072 |
| Prisiau prynu | 304,472 | 889,551 | 959,471 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Newid yng ngwerth y farchnad | | 543,564 | 683,354 |
| Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth | 1,787,822 | 5,674,012 | 4,240,897 |
| | | | |
| Costau ar 31 Mawrth | | 5,114,850 | 4,225,299 |

Dangosir dosraniad asedau yn Adroddiad Buddsoddi y Rheolwyr Cronfa ar dudalen 9.

Ni wneir dosraniadau o'r gronfa, gyda'r incwm ac unrhyw dreth a adferir yn cael ei gyfuno, gan gynyddu gwerth yr unedau.

Mae'r ffi rheoli o 0.45% y flwyddyn yn cael ei dynnu o werth y gronfa ac yn cael ei adlewyrchu ym mhris uned y gronfa.

8. **Arian Cadw**

| | 2004-05 £ | 2003-04 £ |
|---|---|---|
| **Arian Cadw** | 140,011 | - |
| **Llog** | 921 | - |
| | 140,932 | - |
| **Llai Llog a gronnodd ond nas derbyniwyd** | (28) | - |
| | 140,904 | - |

9. **Asedau a Rhwymedigaethau Presennol**

| | 2004-05<br>£ | 2003-04<br>£ |
|---|---|---|
| Arian Parod yn y Banc | 11,470 | 11,929 |
| Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr | 155,137 | 74,317 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 509 | 414 |
| Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn | (16,498) | (14,504) |
| | 150,618 | 72,156 |

Mae 'cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr' yn cyfeirio at fis Mawrth 2005 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol.

Mae 'Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn' yn cynnwys rhwymedigaethau am waith a wnaed, lle na ddaeth anfonebau i law erbyn diwedd y flwyddyn.

10. **Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion materol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir fel parti cysylltiedig.

Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 4 y cyfrifon hyn.

Nid oes yr un o Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion materol gyda'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

**Datganiad Cymdymffurfio**

Diben y datganiad cydymffurfio hwn yw nodi'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**Beth yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddiannau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Prif fuddiannau'r cynllun yw:

- pensiwn o un rhan o ddeugain neu un rhan o bum deg o gyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a roddwyd erbyn ymddeol yn 65 oed;
- pensiwn cynnar i'w dalu wrth ymddeol cyn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 50 oed (gellir lleihau'r pensiwn yn ôl oed/hyd gwasanaeth);
- pensiwn wrth ymddeol ar unrhyw adeg oherwydd gwaeledd;
- pensiwn gwr/gwraig weddw cyfwerth â 5ed/8fed o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar ddarpar wasanaeth os yw'n marw tra'n Aelod o'r Cynulliad);
- pensiwn plant (ar gyfradd o chwarter pensiwn sylfaenol neu bensiwn tebygol yr Aelod ar gyfer un plentyn neu dair rhan o wyth ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- mae pensiynau talu yn cael eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu;
- rhodd cyfandal marw yn y gwaith sy'n gyfwerth â chyflog pedair blynedd gyda darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae'r buddiannau dewisol yn cynnwys:

- prynu blynyddoedd ychwanegol;
- trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o'r cynllun);

**Perthynas â Chynllun Ymddeol y Wladwriaeth**

- Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad wedi'i gontractio o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth a bydd Aelodau felly'n talu cyfradd is o gyfraniad Yswiriant Cenedlaethol.
- Mae'r pensiwn y mae Aelodau sydd wedi ymddeol yn ei dderbyn o'r Cynllun hwn yn ychwanegol i unrhyw hawl i arian o Gynllun Ymddeol y Wladwriaeth.

**Sut y Penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun**

- Mae Atodlen 1 o Reolau'r Cynllun yn nodi na fydd 'mwy' na 5 Ymddiriedolwr.

- Dim ond Aelod o'r Cynulliad ellir ei benodi fel Ymddiriedolwr, ond ni fydd person yn peidio bod yn Ymddiriedolwr os yw'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Cynulliad. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi neu ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr i neu o'r swydd honno. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Lywydd y Cynulliad.

**Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr**

Fel rheol, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 3 chyfarfod Ymddiriedolwyr.

Gall yr Ymddiriedolwyr weithredu gyda mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm a'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri.

**Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Gellir cael manylion y weithdrefn gan y Swyddfa Ffioedd.

**Cynghorwyr y Cynllun a Benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr Mewn Cysylltiad â'r Gronfa ar 31 Mawrth 2004**

| | |
|---|---|
| Actiwari | Grant Ballantine o Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| Archwilydd | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Bancwyr | Banc Barclays ccc |
| Rheolwr Buddsoddi | Baillie Gifford Life Cyfyngedig |
| Cynghorwr Cyfreithiol | Eversheds |
| Cyfrifyddion y Cynllun | Yr Adran Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Ni fu newidiadau i'r penodiadau ers y cyfnod blaenorol.

**Safon Cyllid**

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i eithrio'n statudol o Adran 56 Deddf Pensiynau 1995 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau fodloni 'Gofynion Lleiafswm Cyllid' (MFR).

**Statws Treth y Cynllun**

Cynllun pensiwn statudol yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo.

**Rheolwr Buddsoddi**

Ymhlith cyfrifoldebau Baillie Gifford y mae:

(i) cyflawni'r holl swyddogaethau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa;

(ii) dyrannu'r portffolio cytbwys rhwng categorïau buddsoddiadau a dethol stociau unigol o fewn pob categori buddsoddiadau;

(iii) penderfynu a yw'n briodol cadw neu ryddhau buddsoddiadau unigol o fewn y portffolio;

(iv) arfer y pwerau buddsoddi mewn ffordd a fydd yn gweithredu'r egwyddorion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP), os yw hynny'n ymarferol, ac yn benodol, yn rhoi ystyriaeth i ba mor addas ac amrywiol yw'r buddsoddiadau o fewn y canllawiau a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

**Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)**

Telir Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol er mwyn prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth ac mae cyfraniadau o'r fath yn cael eu buddsoddi gyda'r cyfraniadau arferol yn nghronfa'r cynllun.